Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Reoli Risg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Tachwedd 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (deddf 2004).

### © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, mae'n rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ailddefnyddio.

### Os byddwch angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio/International Organization of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

# Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad 4

Ein canfyddiadau 7

Argymhellion 11

Atodiadau 13

1 Ynglŷn â'n gwaith 14

Amdanom ni 16

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Fe wnaethom ystyried a yw trefniadau rheoli risg y Cyngor yn ei gynorthwyo i reoli'n effeithiol y risgiau a allai ei atal rhag cyflawni ei amcanion strategol.

2 Ni wnaeth yr adolygiad hwn geisio deall a yw cofrestr risg y Cyngor yn gywir neu'n gadarn. Ni wnaeth gynnal dadansoddiad o'r risgiau y gallai fod gan y Cyngor, ac felly, nid yw'n myfyrio ar ba un a oes gan y Cyngor ddealltwriaeth gynhwysfawr o'i risgiau. Ni edrychodd chwaith ar reoli risg ar lefel adrannol neu brosiect. Ei unig nod oedd deall a yw trefniadau'r Cyngor yn cefnogi'r broses o gyflawni ei amcanion strategol.

## Pam mae hyn yn bwysig

3 Rheoli risg i lywodraeth leol yw'r broses o nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion strategol cynghorau.[1]

4 Mae rheolaeth risg effeithiol mewn llywodraeth leol yn bwysig gan y gall helpu i wella cynllunio a blaenoriaethu strategol, sicrhau y gall gwasanaethau barhau i gael eu darparu, ac y gall cynghorau gyflawni eu hamcanion strategol.

5 Heb drefniadau rheoli risg effeithiol, gallai cyngor fethu cyfleoedd i wella canlyniadau i'w drigolion. Dylai rheolaeth risg effeithiol helpu cynghorau i ymateb mewn ffordd ystwyth i'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethu ac arweinyddiaeth, ac yn hollbwysig i sut y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli ar bob lefel.[2]

---

[1] O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i gynghorau yng Nghymru osod a chyhoeddi amcanion llesiant. I'r mwyafrif o gynghorau, mae'r rhain bellach wedi'u mabwysiadu fel amcanion strategol y sefydliad.

[2] Llywodraeth y DU, Y Llyfr Oren – Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau, 2023

# Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod

6 Mae gan y Cyngor bolisi rheoli risg sydd wedi'i seilio ar ei God Llywodraethu Corfforaethol, ond nid yw ei ddiwylliant a'i systemau rheoli risg cyffredinol wedi'u datblygu yn ddigonol. Mae hyn yn cyfyngu ar ei allu i nodi, asesu, ac ymateb yn effeithiol i risgiau, a allai effeithio ar gyflawniad ei nodau llesiant a strategol. Mae risgiau hefyd yn dueddol o adlewyrchu cyfuniad o broblemau a risgiau.

7 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran gwella rheolaeth risg ac mae cyfrifoldeb am risgiau wedi'i neilltuo i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, gan adlewyrchu ymrwymiad i drosolwg cyfunol. Fodd bynnag, ceir diffyg capasiti i gydgysylltu ac ysgogi ei drefniadau rheoli risg ac i gefnogi a herio gweithgarwch ar lefel cyfarwyddiaeth.

8 Gellid gwella trefniadau'r Cyngor i sganio'r gorwel ar gyfer bygythiadau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg hefyd. Er bod risgiau yn cyd-fynd ag amcanion llesiant, gellid gwneud y cysylltiad hwn yn fwy rhagweithiol a strategol, gan helpu i ysgogi proses nodi risgiau yn hytrach na'i wneud yn ôl-weithredol. Adolygodd y Cyngor ei Bolisi Rheoli Risg (y polisi) yn 2023 ac mae'n parhau i adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn, sy'n darparu sylfaen ar gyfer datblygiad pellach. Byddai egluro atebolrwydd unigol o fewn y model cyfrifoldeb cyfunol presennol hefyd yn helpu i atgyfnerthu cyfrifoldeb a thryloywder.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

9 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad â’r nod o wella trefniadau rheoli risg y Cyngor. Mae’r rhain yn cwmpasu:

- cryfhau’r diwylliant rheoli risg;
- gwella prosesau; a
- gwerthuso effeithiol.

# Ein canfyddiadau

## Nid yw trefniadau rheoli risg y Cyngor yn gweithio yn effeithiol i gefnogi cyflawniad ei amcanion strategol yn llawn

10 Mae gan y Cyngor Bolisi a Fframwaith Rheoli Risg sydd wedi'i seilio ar ei God Llywodraethu Corfforaethol, ond nid ydynt wedi'u cefnogi gan ddiwylliant rheoli risg aeddfed ac effeithiol. Mae'r polisi yn nodi'r swyddogaethau, y cyfrifoldebau a'r llinellau adrodd ar gyfer pob swyddog ac aelod. Fodd bynnag, ceir rhai agweddau ar y polisi hwn nad ydynt ar waith. Er enghraifft, mae'r polisi yn nodi y dylai fod gan y Cyngor swyddog pwrpasol a fydd yn cydgysylltu gwaith ar yr asesiad risg blynyddol ac adolygiadau a gweithrediad dilyn fel pwynt cyfeirio a chefnogaeth. Nid oes gan y Cyngor hyn, ac rydym wedi canfod bod diffyg capasiti strategol a gweithredol i ganolbwyntio yn effeithiol ar reoli risg. O'r herwydd, ceir perygl na fydd y Cyngor yn gallu nodi a rheoli ei risgiau, a allai effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau a chadw'r Cyngor yn ddiogel.

11 Nid yw'r Cyngor yn gweithredu ei God Llywodraethu Corfforaethol yn llawn, sy'n datgan y bydd yn 'gweithredu trefniadau rheoli risg cadarn ac integredig a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol'. Mae'r Cod yn datgan y bydd nodiadau cyfarwyddyd rheoli risg yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd ac yn cael eu rhannu â Thimau Rheoli Adrannol. Mae hefyd yn datgan y bydd modiwlau e-ddysgu ar gael. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bod y trefniadau hyn ar waith. Mae hyn yn tanseilio gallu'r Cyngor i fod â threfniadau rheoli risg effeithiol ac integredig.

12 Mae dull y Cyngor o nodi a diffinio risgiau yn awgrymu diffyg cysondeb rhwng rheoli risg a'i amcanion strategol. Mae'r Cyngor wedi cysoni pob amcan llesiant â risg. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth ei fod wedi edrych ar bob amcan llesiant i ystyried pa risgiau allai eu hatal rhwng cael eu cyflawni. Heb y dull hwn o ddefnyddio amcanion llesiant fel man cychwyn, gallai'r Cyngor fethu cyfleoedd i sefydlu rheolaethau ataliol a lleihau'r tebygolrwydd y bydd amcanion llesiant yn cael eu datblygu.

13 Mae'r Cyngor yn sicrhau bod risg yn cael ei thrafod fel mater o drefn mewn cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Corfforaethol, a Chabinet a Bwrdd Rheoli Corfforaethol ag eitem agenda sefydlog. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor bob amser yn cofnodi'r canlyniad o'r trafodaethau hyn yn eglur, gan gynnwys lefel ac ansawdd yr her. Gallai gwella cysondeb a thryloywder y trafodaethau hyn gryfhau llywodraethiant risg y Cyngor ymhellach.

14 Er bod lefelau goddefiant y Cyngor wedi'u hamlinellu yn y Polisi Rheoli Risg, nid yw ei barodrwydd i dderbyn risg. Mae'r polisi yn datgan y bydd y Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet yn pennu parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg. Mae'r Polisi Rheoli Risg yn awgrymu mai ei barodrwydd yw unrhyw risg y mae'n ei nodi uwchben sgôr penodol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wybodaeth i gefnogi sut y mae wedi penderfynu, er enghraifft, os oes ganddo agwedd ragofalus tuag at risgiau ariannol neu agwedd agored at risgiau arloesol. Byddai deall ei barodrwydd i dderbyn risg yn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau mwy cytbwys.

15 Mae'r Polisi Rheoli Risg yn nodi y dylai'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet sganio'r gorwel ar gyfer risgiau tymor canolig a thymor hwy. Mae'r Cyngor yn dibynnu ar wybodaeth broffesiynol ei gyfarwyddwyr i nodi'r risgiau tymor hwy hyn. Fodd bynnag, mae'n anodd deall canlyniadau'r trafodaethau hyn gan nad ydynt yn cael eu cofnodi. Heb ddull cydgysylltiedig o sganio'r gorwel, gallai'r Cyngor fethu cyfleoedd i nodi risgiau tymor hwy.

16 Gellid cryfhau dull y Cyngor o asesu risgiau trwy ddefnyddio dadansoddeg risg, deallusrwydd artiffisial, neu fodelu risg.[3] Nid yw'n defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael ac yn ddibynadwy i asesu maint, tebygolrwydd, ac effaith bosibl risg. Heb yr wybodaeth ehangach hon, ceir perygl na fydd gan y Cyngor ddarlun llawn a chywir i seilio ei benderfyniadau arno.

[3] Er enghraifft, cynllunio senarios, dadansoddiad SWOT, dadansoddiad PESTLE, modelu rhagfynegol.

17 Mae'r Cyngor yn darparu camau lliniaru yn erbyn pob risg, ond nid ydynt bob amser yn eglur. Mae rhai yn gyfuniad o gamau yn y gorffennol a'r dyfodol. Nid yw bob amser yn hawdd deall sut mae'r camau hyn yn lleihau'r tebygolrwydd neu'r effaith. Gall hyn arwain at fwy o amlygiad i risg, defnydd aneffeithiol o adnoddau ac anallu i fonitro cynnydd yn effeithiol. Hefyd, nid yw'r Cyngor yn gwahaniaethu rhwng risgiau a phroblemau yn ei Asesiad Risg Corfforaethol. Mae risgiau a phroblemau yn gofyn am wahanol ymatebion.[4] Gallai mwy o eglurder ynghylch y gwahaniaeth wella gwaith blaenoriaethu.

18 Mae Cod Cyfarwyddyd Corfforaethol y Cyngor yn nodi y dylid nodi ystyriaeth a monitro o'r risgiau sy'n wynebu pob partner (gan gynnwys risgiau cyffredin) yn yr Asesiad Risg Corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw'r risgiau cyffredin hyn wedi'u cynnwys. Mae'n anodd, felly, deall sut y caiff effaith gyfunol risgiau ei chydnabod ar draws y Cyngor. Heb y dull integredig hwn o reoli risg, efallai na fydd y Cyngor yn ymwybodol o agweddau agored i niwed a chyfleoedd posibl ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau a lliniaru risg yn well.

19 Prin yw'r dystiolaeth o adrodd cyfunol ar draws perfformiad, cyllid, a risg. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu'r Asesiad Risg Corfforaethol ddwywaith y flwyddyn. Caiff hwn ei adrodd i'r Cyngor unwaith y flwyddyn wedyn, ar gyfer ystyriaeth yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei gyflwyno yn rhan o Asesiad Perfformiad Corfforaethol ac adroddiadau monitro'r gyllideb tri misol y Cyngor. Heb yr ymwybyddiaeth ehangach hon, gallai fod yn anodd i aelodau ddeall yn llawn y rhesymau am ddyrannu adnoddau a gwariant. Mae hynny'n gwanhau'r broses gwneud penderfyniadau wedyn.

20 Diweddarwyd polisi rheoli risg y Cyngor ddiwethaf ym mis Ionawr 2023. Ar yr adeg honno, nododd y Cyngor yn y polisi y byddai'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu'r polisi ym mis Ionawr 2024. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd yr adolygiad hwn. Roedd diweddariad 2023 yn un cyffyrddiad ysgafn ac nid oes unrhyw dystiolaeth fod y Cyngor wedi gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol ei drefniadau rheoli risg, gan gynnwys dysgu gan sefydliadau eraill. Methodd y Cyngor gyfle i wella gwerth am arian yn ei drefniadau rheoli risg o bosibl.

[4] Digwyddiad posibl yn y dyfodol yw risg. Mae'n rhywbeth a allai ddigwydd ond nad yw wedi digwydd eto. Mae problem yn golygu problem sydd eisoes wedi codi neu'n digwydd ar hyn o bryd.

21 Nid oes gan y Cyngor broses ffurfiol wedi'i chydgysylltu'n ganolog ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd. Gallai hyn olygu bod y Cyngor yn methu'r cyfle i ddysgu o lwyddiannau a methiannau. Gallai hyn gynorthwyo proses gwneud penderfyniadau fwy cytbwys a chryfhau camau lliniaru risg ac felly lleihau'r tebygolrwydd o risgiau neu eu heffaith.

# Argymhellion

**A1** **I gryfhau ei ddiwylliant rheoli risg**, dylai'r Cyngor:

**1.1** gytuno ar ei barodrwydd i dderbyn risg a sicrhau bod hwn a'i lefelau goddefiant yn cael eu gweithredu a'u deall gan swyddogion ac Aelodau (para 14)

**1.2** adrodd mewn ffordd integredig ar reoli risg, perfformiad, a monitro'r gyllideb (para 19)

**1.3** sicrhau bod hyfforddiant priodol a phrydlon ar gael **(para 11)**

**A2** **I wella prosesau sy'n caniatáu iddo nodi, rheoli, monitro, a herio** ei risgiau, dylai'r Cyngor**:**

**2.1** gryfhau ei drefniadau sganio'r gorwel i sicrhau ei fod yn mabwysiadu dull hirdymor ac ataliol o reoli risg (para 15);

**2.2** sefydlu trefniadau i ddangos ystyriaeth eglur o risgiau i gyflawniad ei amcanion strategol/llesiant (para 13);

**2.3** diffinio risgiau yn eglur, fel ei bod yn eglur beth yw'r risgiau y mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â nhw a pham (para 12);

**2.4** gwahaniaethu rhwng problemau a risgiau i sicrhau bod y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth (para 17); a

**2.5** dangos ei ddealltwriaeth o'r rhyngberthynas rhwng ei risgiau ei hun a rhai ei bartneriaid i sicrhau bod y camau rheoli y mae'n eu cymryd yn briodol (para 18).

**A3** **I werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau**, dylai'r Cyngor:

**3.1** werthuso ac adrodd yn rheolaidd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg gan gynnwys dysgu ehangach gan gynghorau eraill (para 20); a

**3.2** rhannu gwersi a ddysgwyd fel mater o drefn i wella ei drefniadau rheoli risg (para 21).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Ystyriodd yr archwiliad hwn drefniadau Rheoli Risg Corfforaethol y Cyngor. Ni wnaeth yr archwiliad archwilio trefniadau rheoli risg yn gysylltiedig â rhaglenni neu brosiectau penodol.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Nod yr archwiliad hwn oedd ateb y cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli risg eglur wedi'i gefnogi gan ddiwylliant rheoli risg effeithiol?
- A yw'r Cyngor yn nodi, rheoli, monitro a herio ei risgiau yn effeithiol?
- A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg?

### Meini prawf

Datblygwyd y meini prawf archwilio gennym gan ddefnyddio amrywiaeth o ganllawiau rheoli risg a chyhoeddiad 'Overcoming challenges to managing risks in government' y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o 2024.[5]

## Dulliau

Fe wnaethom ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau allweddol yn ymwneud â rheoli risg;
- cyfweld swyddogion allweddol ac aelodau etholedig sy'n gyfrifol am nodi, lliniaru, a goruchwylio gwaith rheoli risg;

[5] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Overcoming challenges to managing risks in government, 2023

- arsylwi sampl o gyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y Cyngor lle mae adroddiadau rheoli risg wedi cael eu hystyried.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a’r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n gorff a sefydlwyd i gynorthwyo, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw’r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â’r swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.